


Cyngor Cymuned Pontyclun Community Council

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi gormodol. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e. Cymraeg neu'n ddwyieithog

Swyddfa Cyngor Cymuned
Canolfan Gymunedol Pontyclun
Heol yr Orsaf
Pontyclun
CF72 9EE
Ffôn: 01443 238500
E-bost: clerk@pontyclun-cc.gov.wales
Gwefan: www.pontyclun.net



Community Council Office
Pontyclun Community Centre
Heol yr Orsaf
Pontyclun
CF72 9EE
Telephone: 01443 238500
E mail: clerk@pontyclun-cc.gov.wales
Website: www.pontyclun.net

Mae Swyddfeydd y Cyngor fel arfer ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 10am tan hanner dydd ac eithrio Gwyliau Banc
The Council Offices are normally open Monday to Friday 10am to noon except Bank Holidays

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116 Hysbysiad o Gyfethol ar gyfer Ward canolog Pont-y-clun

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Cymuned Pont-y-clun swydd wag ar gyfer Cyngorydd yn ward canolog Pont-y-clun a fydd yn cael ei llenwi drwy'r broses o gyfethol.

Mae gan Gynghorwyr cyfetholedig yr un hawliau a chyfrifoldebau â'r Cynghorwyr hynny sy'n cael swydd drwy etholiad. Mae'r rôl yn amrywiol ac yn galluogi pobl leol i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiad i wella'r gwaith a wneir gan y Cyngor er budd y gymuned.

Mae'r Cyngor yn dymuno gwahodd pobl gymwys i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer rôl y Cyngorydd drwy lythyr/e-bost yn amlinellu'r canlynol:

- y cyfraniad rydych chi'n credu y gallech ei wneud i waith y Cyngor.
- y rhinweddau personol y byddech yn eu cyflwyno i'r rôl.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys eich cyfeiriad cartref, eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost yn eich llythyr.

Er mwyn gallu sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cyngor cymuned mae'n rhaid i chi:

- Bod yn 18 oed o leiaf a bod yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad, yn ddinesydd unrhyw aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd tramor cymwys, a
- Cwrdd ag o leiaf un o'r pedwar cymhwyster canlynol: a) Rydych wedi'ch cofrestru, a byddwch yn parhau i fod, wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned yr ydych yn dymuno sefyll ynddi. b) Rydych wedi meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal gymunedol yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad. c) Eich prif fan gwaith neu'ch unig le gwaith yn ystod y 12 mis cyn diwrnod eich enwebiad ac mae diwrnod yr etholiad wedi bod yn yr ardal gymunedol. d) Rydych wedi byw yn yr ardal gymunedol neu o fewn tair milltir iddi yn ystod y 12 mis cyfan cyn diwrnod eich enwebiad a diwrnod yr etholiad.

Mae croeso i bob aelod cymwys o'r gymuned wneud cais. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau cyfansoddiad cytbwys o Gynghorwyr sy'n adlewyrchu gymuned Pont-y-clun.

Dyddiad cau: Canol nos, Dydd Mercher 17 Hydref 2022. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2022

Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer cyfethol ar gyfer y sedd wag neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am rôl Cyngorydd Cymuned, cysylltwch â Chlerc y Cyngor ar 01443 238500 neu drwy e-bost at clerk@pontyclun-cc.gov.wales